# Tystiolaeth ysgrifenedig gan Rondo Media i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**CYFLWYNIAD A CHEFNDIR RONDO MEDIA**

Mae Rondo Media yn croesawu'r gwahoddiad i gyfrannu at waith grwp gorchwyl a gorffen Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn cynnal ymchwiliad i'r rhagolygon ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru yn y dyfodol.

Sefydlwyd Rondo ym mis Ebrill 2008, ac mae'n cyflogi 60 o staff llawn amser mewn swyddfeydd yng Nghaernarfon, Porthaethwy a Chaerdydd. Mae'r cwmni yn cynhyrchu nifer o gyfresi poblogaidd gan gynnwys y gyfres ddrama ieuenctid *Rownd a Rownd*, y gyfres bel-droed *Sgorio*, a darpariaeth o ddigwyddiadau fel Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a Chystadleuaeth *Côr Cymru*.

Mae'r cwmni wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu ail gyfres o'r gyfres ddrama *The Indian Doctor* i BBC1, ferswin ffilm o gynhyrchiad *The Passion* gyda Michael Sheen, gêm cwpan yr FA rhwng Wrecsam a Chaergrawnt, y gyfres ddrama ieuenctid newydd *Zanzibar* i S4C, y fformat goginio boblogaidd *Pryd o Sêr* a rhaglen ddogfen ar y canwr Wynne Evans i BBC Wales. Gyda throsiant o £14.6 miliwn, cafodd y cwmni ei osod yn safle rhif 19 mewn arolwg diweddar o gwmniau cynhyrchu ym Mhrydain: 'Production 100' gan Televisual.

**1. Cyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru a sut mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn effeithio ar hyn yng nghyd-destun pryderon parhaus ynghylch dyfodol y cyfryngau darlledu a phrint yng Nghymru.**

Mae Adroddiad Ofcom ar y farchnad gyfathrebu a gyhoeddwyd yn Awst eleni yn portreadu darlun digon negyddol o ddarlledu ac yn cynnig tystiolaeth sydd yn codi cwestiynau dybryd am lefelau ariannu ac ymrwymiad darlledwyr cyhoeddus at wasanaethau yng Nghymru:

Er bod oriau gwylio teledu y pen ar ei uchaf yng Nghymru ac yn yr Alban o blith gwledydd y DU (ar gyfartaledd 4.5 awr y dydd yn 2010) mae cyfanswm gwariant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys teledu a ddarlledir am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi disgyn 13%. Dyma'r gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall ymysg pedair gwlad y DU gyda chyfanswm y gwariant yng Nghymru wedi disgyn 33% dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae gwariant ar raglenni nad ydynt yn newyddion neu'n rhaglenni materion cyfoes yng Nghymru wedi disgyn 32% tra bod gwariant ar gynnwys i wylwyr yng Nghymru gan y BBC ac ITV wedi disgyn o £37m yn 2005 i £25m yn 2010. Mae'r dirywiad cyson o ran ariannu rhaglenni Saesneg yng Nghymru yn bryder sylweddol iawn. Ddeng mlynedd yn ôl roedd ystod llawer ehangach o gynnwys a mathau o rhaglenni Saesneg eu hiaith ar gael i wylwyr yng Nghymru.

Ar ben hyn, mae S4C wedi wynebu'r her o gyfleu oriau ychwanegol sylweddol wrth iddi droi'n sianel ddigidol lawn ac yna toriad sylweddol yn ei chyllideb ynghyd â fformiwla ariannu newydd fydd, o 2013 tan 2017 yn bennaf ddibynnol ar gyfran o ffi drwydded y BBC.

**Y SECTOR GYNHYRCHU**

Mae'r sector gynhyrchu yn fuddsoddwr hollbwysig mewn talent, pobl, syniadau, eiddo deallusol, technoleg ac adnoddau ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi yng Nghymru. Yng nghanol y straeon negyddol yn y wasg yn ddiweddar, ac yn nghyd-destun yr ystadegau siomedig uchod, mae'n bwysig cydnabod llwyddiannau nifer o gwmnïau o ran sicrhau comisiynau rhwydwaith a rhyngwladol y tu hwnt i Gymru, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

Llwyddiant cyfres *Rastamouse* i Dinamo ac hefyd cyfres yr *Abadas* sy'n gyd-gynhyrchiad rhwng CBeebies, RTE ac S4C; cyfres ddrama *The Indian Doctor* gan Rondo i BBC 1 ac ail gyfres newydd ei ffilmio; cyfresi rhyngwladol am ynysoedd ac afonydd Green Bay ynghyd â chyfresi i National Geographic a Channel 5; comisiynau newydd gan Channel 4 i Cwmni Da; rhaglenni dogfen *Heath Wilson* i BBC 4 a *Wallace Simpson* i Channel 4 gan Telesgop; cyngerdd agoriadol Cwpan y Ryder Cup i Sky gan Avanti; cyfres ar y Gemau Paralympaidd i Channel 4 gan Boomerang ynghyd

â'u harlwy chwaraeon 'extreme' a llwyddiannau sylweddol ym maes AFP (Advertiser Funded Programming); cyfres ddrama boblogaidd Hartswood Films *Sherlock* sydd ag ail gyfres ar y ffordd; cyfres ddrama newydd Ruth Jones *Stella* sydd wedi ei chynhyrchu gan Tidy Productions i Sky, cyfres gwis gan gwmni Presentable *Only Connect* i BBC4; cyfres Bruce Parry ar yr Arctig gan Indus i'r BBC; cwmni Machine Productions sydd wedi cynhrychu cyfres ddrama i blant *Tati's Hotel* i itv a TVO yng Nghanada. Mae cwmni Tinopolis yn berchen ar rai o gwmniau cynhyrchu mwyaf llwyddiannus Prydain gan gynnwys Mentorn sy'n cynhyrchu *Question Time* i'r BBC a chyfresi poblogaidd Karl Pilkington i Sky. Yn fwy diweddar mae Tinopolis wedi prynu cwmnïau sylweddol iawn yn yr Unol Daliethau – BASE Productions a A. Smith & Co, sy'n eu gwneud yn un o'r cwmniau cynhyrchu mwyaf ym Mhrydain ac yn chwaraewr sylweddol yn y farchnad ryngwladol.

Yn rhy aml, rydym yn anghofio am lwyddiannau fel y rhain uchod, heb sôn am gynyrchiadau llwyddiannus a safonol ar S4C, BBC Cymru ac itv Cymru.

Mae yma gymysgedd gymharol iach o ran arlwy a safon fan hyn ac o ran yr hyn mae'r sector yn medru ei gyflawni. Wrth gwrs, mae modd cyflawni llawer mwy. Mae yma gymysgedd hefyd o ran maint a strwythur y gwahanol gwmnïau cynhyrchu. Fe welwn ni amrywiaeth o ran arbenigedd mewn cwmniau yng Nghymru – rhaglenni natur a gwledig, chwaraeon, rhaglenni plant, rhaglenni ffeithiol, drama, digwyddiadau a pherfformiadau. Wrth i gynifer o'r genres hynny gael eu cydnbaod yn flaenoriaethau cynnwys gan ddarlledwyr, fe ddylai fod cyfleoedd pellach i gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Does dim o'i le ychwaith i gwmnïau ystyried S4C neu/a BBC Cymru fel eu prif ffynhonnell o ran gwaith a chorff comisiynu. Wedi'r cyfan, mae yna nifer o gwmnïau ym Mhrydain sy'n bennaf ddibynnol ar un neu ddau ddarlledwr – BBC neu Channel 4 er enghraifft. Mae'n allweddol bod gan gynhyrchwyr a chyfarwyddwyr ifanc ynghyd â newydd-ddyfodiaid gyfleoedd digonol i gynhyrchu rhaglenni teledu a radio a chynnwys arlein yn yr iaith Gymraeg. Ni ddylai'r un ohonynt orfod ymddiheuro neu gyfiawnhau eu bodolaeth oherwydd hynny.

Mae cystadleuaeth iach a theg yn bwysig o ran datblygu talent a chreadigrwydd y diwydiant. Dylid nodi hefyd bod y broses o gyfnerthu wedi bod yn bwysig er mwyn hybu llwyddiannau mewn marchnadoedd eraill. Mae cwmnïau sydd yn gyflogwyr sylweddol wedi gallu datblygu a meithrin cenhedlaeth newydd o wneuthurwyr rhaglenni tra hefyd yn buddsoddi'n sylweddol iawn yn y diwydiant.

Mae ystod eang o gwmniau, o ran maint a dosbarthiad daearyddol ar hyd a lled Cymru yn bwysig i blwraliaeth y diwydiannau creadigol ac mae'r Athro Hargreaves yn gwbl gywir i bwysleisio hynny yn ei adroddiad. Mae cwmnïau mawr yn bwysig i'w cymunedau ac i economïau lleol. Maent hefyd yn dod â budd i'r diwydiant wrth fuddosddi mewn adeiladwedd

a thechnoleg angenrheidiol er mwyn datblygu'n bellach. O'm safbwynt ni fel cwmni, mae Rondo wedi buddosddi £650K mewn adnoddau ol-gynhyrchu a swyddfeydd newydd yng Nghaernarfon yn ystod y deunaw mis diwethaf ac fel rhan o'n cynllun busnes ein bwriad yw buddsoddi ymhellach yn ein hadnoddau yng Nghaerdydd.

**S4C**

Mae Adroddiad yr Athro Hargreaves yn cydnabod yn gwbl glir bwysigrwydd S4C i'r sector:

'Without S4C, Wales may well not have any independent production companies at all. Almost all of the Welsh indies have their roots in making programmes for S4C and they are spread across Wales in a way that has helped to broaden the geographic base of the Welsh creative industries sector.'

Un ffactor fydd yn dylanwadu'n fawr ar botensial a chyrhaeddiad cynnwys S4C dros y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau cyllideb cynnwys ddigonol. Mae'r gyllideb ar gyfer rhaglenni tan 2015 wedi ei gapio gan y darlledwr ar £65m, sydd yn 28.61% o dorriad yn ôl S4C. Teimlwn y dylid herio'r rhagdybiaeth taw hwn yw'r cwtogiad cywir, yn enwedig os yw S4C am gynnal safon, amserlen lawn a chynyddu gwylwyr y gwasanaeth. Mae'n hanfodol bod y Prif Weithredwr newydd yn medru edrych ar effeithiolrwydd ac arbedion ar redeg a chynnal y gwasanaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gyllideb i'w gwario yn uniongyrchol ar gynnwys.

Gydag ymateb S4C i'r pwyllgor hwn hefyd yn nodi bod cost cyfartaledd yr awr ar gyfer rhaglen wreiddiol yn disgyn o £41K i £32K a lleihad o oddeutu 230 o raglenni Cymraeg sy'n cael eu darlledu yn flynyddol, mae yma her yn sicr i'r sector gynhyrchu Gymreig.

O ran gwariant ar elfennau nad sy'n gynnwys, oni ddylai cronfa fasnachol sylweddol S4C fod yn gyfrifol am dalu am agweddau fel ymchwil, marchnata, y wasg a'r we? Rydym ni hefyd mewn peryg o dalu am warchod prosesau a systemau gweinyddu ar draul cynnwys. Mae costau gweinyddol cwmniau cynhyrchu o ganlyniad uniongyrchol i ofynion a phrosesau golygyddol S4C hefyd yn anghynaladwy os ydy'r sector gyfan am weithio'n fwy effeithiol ac ar lai o gyllideb.

Byddai'n dda gweld S4C yn datblygu fframwaith gomisiynu nad sy'n or-ddibynnol ar dendro ond yn hytrach yn annog partneriaethau yn ogystal â chysadleuaeth o fewn y sector.

O ran incwm masnachol S4C, mae llywodraeth y DU eisioes wedi cadarnhau bod hawl gan S4C i ddefnyddio'r arian hwn at gyflawni ei dyletswydd statudol i ddarlledu cynnwys yn yr iaith Gymraeg.

Fe gyfeiriodd Huw Jones yng nghynhadledd yr IWA ar Hydref 18fed eleni at S4C 'llai ond mwy effeithiol' ac at gynlluniau ariannol erbyn 2014 o 'doriadau ar gostau mewnol S4C sydd, fel canran, yn cyfateb i'r toriadau i'r cyllid rhaglenni.' Tybed a ddylai costau mewnol S4C, mewn

gwirionedd, gael eu torri ymhellach na chyllid cynnwys er mwyn cynnal a chynyddu gwariant ar y sgrîn a chyrraedd y lefelau o effeithiolrwydd angenrheidiol?

Mae gan S4C syniadau clodwiw ynglyn â chyd-gynhyrchu ac mae'r cyhoeddiad am gronfa gyd-gynhyrchu newydd i'w hariannu o gronfa fasnachol y sianel yn gam positif. Yn sicr, fe fydd arbenigedd helaeth y Prif Weithredwr newydd, Ian Jones, ym maes busnes, cyd-gynhyrchu a dosbarthu o fudd enfawr i'r sianel wrth ddatblygu ymhellach yn y maes hwn. Mae'n holl bwysig i broffil ehangach y sianel, i werthiant cynnwys ac i ddylanwad ac effaith S4C tu hwnt i Gyrmu.

**Y BBC**

Teimlwn bod cyhoeddiadau cynllun DQF (Delivering Quality First) y BBC a'i ymrwymiad i gynyddu cynnwys o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ddatblygiad i'w groesawu. Ond, yr hyn sy'n cyfyngu'n rhy aml ar botensial BBC Wales fel gwasanaeth teledu Saesneg yng Nghymru yw bod y gwasanaeth yn gorfod optio allan o'r amserlen rwydwaith, a bod cyfyngiadau ar y slotiau hynny. Mewn oes aml-sianel, mae hwn yn gysyniad eitha hynafol. Mae'n amlygu gwendid sylweddol ym myd darlledu Cymru, sef nad oes modd darlledu mwy o gynnwys Saesneg ei iaith i'n gwylwyr. Ni ddylai methiant gwasanaeth BBC2W gyfyngu ar unrhyw uchelgais i gael mwy o gynnwys gweledol Cymreig ond Saesneg ei iaith ar y sgrin.

Ar ôl bod yn ymwneud gyda'r sector gynhyrchu yn ddiweddar, mae'r BBC yng Nghymru wedi bod yn fwy parod i rannu gwybodaeth ac i fanylu ar brosesau comisiynu. Mae rowndiau comisiynu diweddar BBC Cymru ar gyfer radio a theledu, er enghraifft, wedi dangos gwelliant yn y system o ran cyfleu a rhannu gwybodaeth er mwyn i'r sector ddeall yn well flaenoriaethau'r darlledwyr. Mae cyhoeddi'r hyn a gomisiynwyd gan Radio Cymru a Radio Wales yn y rowndiau blaenorol hefyd o fudd i gynhyrchwyr sy'n paratoi syniadau newydd ar eu cyfer.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Cyfarwyddwr BBC Cymru, Rhodri Talfan Davies, y bydd swydd pennaeth rhaglenni dogfen rhwydwaith yn cael ei leoli yng Nghymru. Mae angen mwy o benaethiaid a rheolwyr sydd yn medru comisiynu cynnwys yn uniongyrchol yn hytrach na rhai sy'n ymddwyn fel rhyw fath o 'go-between golygyddol' rhwng Llandaf a Llundain.

Dylid cydnabod bod 10% o doriad ar wariant cynnwys rhwng nawr a 2013-17, o'i gymharu â 25% o doriad ar wariant nad sy'n gynnwys yn debygol o fod yn fwy cynaladwy yn y tymor hir. Ond unwaith yn rhagor, mae'n parhau'r patrwm a amlygwyd ar ddechrau'r ymateb hwn, sef o dorri nôl ac o ddirywiad cyllidebu sydd mor niweidiol i'n diwydiant ni.

Mae'r datblygiad drama sylweddol ym Mae Caerdydd wedi ennyn cryn sylw, a Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl amlwg yn ei ddatblygiad. Mae lle pellach i hybu a chefnogi ymdrechion cwmniau cynhyrchu yng Nghymru i ddatblygu a darparu dramau safonol

rhwydwaith i'r BBC fel bod y sector annibynnol hefyd yn medru ymewla o'r datblygiad sylweddol hwn.

**ITV CYMRU**

Arferai itv Cymru gomisiynu nifer o gynyrchiadau gan y sector annibynnol. Ond, wedi crebachu enfawr dros y blynyddoedd o ran cyllideb ac amserlen, dyma ddarlledwr sydd bellach ond yn darlledu 90 munud o raglenni sydd heb fod yn newyddion neu'n faterion cyfoes bob wythnos. Mae'r rheiny'n bennaf yn cael eu cynhyrchu'n fewnol gan itv Cymru.

Yn sicr, mae'r dirywiad hwn wedi bod yn golled sylweddol i blwraliaeth darlledu yng Nghymru ac yn golled cyfle i'r sector gynhrychu. Wrth i itv Cymru ddatgan eu bod nhw'n awyddus i gynhyrchu rhagor o raglenni Cymraeg eu hiaith i S4C, mae'r sefydliad mewn gwirioneddd yn troi'n fwy o gystadleuydd i'r sector gynhyrchu yn hytrach na darlledwr sydd yn cynnig cyfleodd comisiynu i'r sector.

**Y BERTHYNAS RHWNG S4C A'R BBC**

Yn naturiol, dyma sydd wedi ennyn y prif sylw o ran sefyllfa darlledu yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o fudiadau, sefydliadau, gwleidyddion a'r cwmniau cynhyrchu eu hunain wedi cyfrannu'n sywleddol at y trafodaethau a'r tystiolaethau. Gobeithio'n fawr bod yr ymgyrchu a'r lobïo hwnnw wedi cael effaith.

Roedd un argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn tynnu sylw at y ffaith y dylai'r ymrwymiad i S4C ymestyn y tu hwnt i 2014-15 gan fod cyfnod y ffi drwydded presennol yn parhau tan 2017. Mae'n dda gweld hyn bellach yn cael ei adlewyrchu yn y cytundeb newydd rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ag S4C. Teimlwn y dylid cydnabod y rôl allweddol yn y trafodaethau hyn gan ymddiriedolwraig y BBC yng Nghymru, Elan Closs Stephens a chan gadeirydd Awdurdod S4C Huw Jones. Mae'n dda gweld cytundeb sy'n sicrhau ac yn gwarchod annibyniaeth S4C fel darlledwr ac ymrwymiad cyfran o ffi'r drwydded tan 2017.

Mae'r cyhoeddiadau diweddar o ran y berthynas rhwng S4C a'r BBC yn rhoi darlun cliriach i ni o'r sefyllfa erbyn hyn. Mae'n hanfodol wrth gwrs bod S4C hefyd yn derbyn scirwydd am yr arian <u>nad</u> sy'n dod o ffi'r drwydded a bod y drefn ariannu deiran yn parhau fel yr awgryma Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, yr Arglwydd Patten, yn ei lythyr at Huw Jones:

'funding for S4C in the future will be from three sources: the licence fee, HMG grant-in-aid and commercial income. '

Mae'n holl bwysig gweld S4C yn cadw ei hawdurdod ei hun a'i bod yn annibynnol o reolaeth y BBC. Fe all y BBC fod yn bartner effeithiol i S4C wrth gwrs, ond mae'n allweddol bod S4C yn cael y rhyddid i gyd-weithio gyda darlledwyr eraill fel Sky, Discovery, National Geographic ac ar gyd-gynyrchiadau fel y gyfres animeiddio newydd gyda'r Cartoon Network.

Mae'r Arglwydd Patten hefyd yn nodi yn ei lythyr:

'With our executive teams working together to reduce unnecessary operational duplication, I would expect that the funding available to S4C for commissioning Welsh language programming from the independent sector in Wales can be maintained, or indeed increased, in the period of the licence fee funding from 2013/14 to 2016/17.

Mae'r amlinelliad o'r trefiant rhwng y darlledwyr yn nodi sefydlu bwrdd partneriaeth newydd:

'the joint partnership board will deliver closer collaboration between S4C and the BBC contributing to the efficiency targets established in the Operating Agreement, as well as BBC Wales' own efficiency targets. Any savings that S4C realised from such collaboration would be reinvested in S4C content.'

Mae'r bwrdd partneriaeth rhwng S4C a BBC yn canolbwyntio ar dargedau ac arbedion. Os yw'r bwrdd hefyd yn trin a thrafod cynnwys, mae'n bwysig bod cynrychiolaeth o'r sector gynhyrchu hefyd yn medru cyfrannu at y trafodaethau hynny.

Yn sicr fe ddylai S4C, BBC Cymru a'r sector gynhyrchu gyd-weithio'n agosach i warchod a sicrhau darllediadau cynhwysfawr o brif ddigwyddiadau cenedlaethol Cymru fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a'r Sioe Amaethyddol Frenhinol.

Mae cael y ddau ddarlledwr i hybu, ar y cyd, ymwybyddiaeth defnyddwyr, gwylwyr a gwrandawyr o'u rhaglenni a'u hamryw gwasanaethau yn rhywbeth y dylid ei annog ar bob cyfrif. Byddai'n dda hefyd eu gweld yn cyd-weithio ar arbed costau darlledu sydd yn sylweddol iawn ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol, rydym yn croesawu gweld bod Llywodraeth Cymru yn rhan ffurfiol o ddethol aelodau Awdurdod S4C.

**2. Beth ddylai'r blaenoriaethau fod o safbwynt Cymru wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer ei Bil Cyfathrebu.**

Dylai'r Ddeddf Gyfathrebu newydd adlewyrchu a chydnabod gwerth cynyddol darlledu yng Nghymru. Dylid sicrhau nad yw unrhyw gytundeb ariannol a chyllidebol ddigonol, yn y tymor byr, yn cael effaith andwyol ar ddyfodol creadigol a diwylliannol hir-dymor Cymru. Mae sicrhau cyllideb ddigonol yn allweddol hefyd i annog cwmniau'r sector breifat i fuddsoddi ymhellach yn y diwydiant.

Er ei bod hi'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn mynd i chwarae mwy o rôl yn nyfodol S4C, byddem yn croesawu perthynas fwy ffurfiol rhwng Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran rôl a gorchwyl darlledwyr cyhoeddus yng Nghymru.

Fe gyhoeddodd y Ddeddf Gyfathrebu yn 2003 y dylai S4C gael ei hadolygu bob pum mlynedd. Ni ddigwyddodd hynny yn 2008. Mae'r diffyg hwn wedi effeithio'n andwyol ar y sefyllfa ac ar benderfyniadau funud olaf a wnaethpwyd yn 2010 fel rhan o broses Adolygiad Gwariant Cyhoeddus llywodraeth bresennol y DU.

Mewn byd mor gystadleuol, mae gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau eraill yn dod yn fwy-fwy allweddol i sicrhau cytundebau newydd a gwaith traws blatfform. Gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud mwy i annog mentergarwch a chyd-fuddsoddi gan y diwydiannau creadigol.

Mae angen gwell diffiniad o beth yw gwir bwrpas darlledwyr cyhoeddus. Heb y diffiniadau hyn, mae peryg sylweddol mewn cymhariaethau, e.e. rhwng S4C a BBC Alba. Dyma gymhariaeth gafodd ei chyflwyno fel egin syniad yn y llythyr gwreiddiol hwnnw gan yr Ysgrifennydd Gwladol Jeremy Hunt at Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC ar y pryd, Syr Michael Lyons. Mae'n gymhariaeth a arweiniodd at gryn dyndra. Mae enghraifft arall wedi dod i'r wyneb yn ddiweddar, sef cymhariaethau gwariant a nifer gwrandawyr ar gyfer BBC Radio Cymru a BBC Radio Cernyw. Efallai bod y cymhariaethau hyn yn symptom o doriadau ym myd darlledu ar hyn o bryd, ond unwaith eto, dyma arwain at ddadleuon a thensiynau sy'n niweidiol eithriadol i'n diwylliant ac i'r iaith Gymraeg.

Wrth ddibynnu'n unig ar ystadegau ffigyrau gwrando neu wylio rydym yn di-ystyru nifer o ffactorau eraill sydd llawn mor bwysig o ran rôl darlledwyr yn yr iaith Gymraeg: gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd, cyrhaeddiad at gynulleidfa newydd, traweffaith mathau arbennig o raglenni ynghyd a chyfraniad ddiwylliannol gwerthfawr. Mae mawr angen felly am dystiolaeth gadarn a pherthnasol arnom ni erbyn diwedd cyfnod y CSR presennol.

Cytunwn gyda safbwynt a wnaethpwyd gan S4C yn ei ymateb i'r pwyllgor hwn, sef y dylai pwrpas a rôl S4C gael ei ddiweddaru a'i ehangu i'w wneud yn fwy perthnasol at ofynion defnyddwyr a gwylwyr yng Nghymru heddiw.

Rydym yn bendant y byddai gan y darlledwyr a'r sector gynhyrchu ddiddordeb mewn gweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru ar fesuriadau sy'n dadansoddi gwerth gwariant arian cyhoeddus ar ddarlledu. 'Dyw ffigurau gwylio ynysig yn unig ddim yn dystiolaeth ddigon dibynadwy o lywddiant bellach a dylai'r Ddeddf newydd gydnabod hynny.

Dylai'r Ddeddf hefyd warchod y system o gwotas a'r canrannau o'r cynnyrch a gomisiynir o'r 'Cenhedloedd a'r Rhanbarthau'. Rhaid i'r darlledwyr cyhoeddus fod yn atebol i'r canrannau hyn.

Yn bennaf oll, mae'r darlledwyr cyhoeddus yn atebol i'w cynulleidfaoedd a dylid eu blaenoriaethu nhw bob tro. Y nhw sydd yn colli allan fwyaf pan ystyriwn ni ganlyniadau fel y rhai a gyhoeddwyd gan Ofcom ar sefyllfa'r farchnad gyfathrebu yng Nghymru a'r dirywiad sylweddol mewn gwariant ar gynnwys gan ddarlledwyr yng Nghymru.

Awgrymwn yn gryf bod y darlledwyr, y sector gynhyrchu a swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru yn mynychu'r Westminster Media Forum ar Chwefror y 7fed 2012 – fforwm fydd yn ystyried yr argymhellion ar gyfer y Papur Gwyrdd ar Gyfathrebu i'w gyhoeddu yn fuan.

**3. Y cyfleoedd i adeiladu model busnes y cyfryngau newydd yng Nghymru.**

Mae'r agweddau cymharol geidwadol at ddarlledu sy'n bodoli yng Nghymru yn dueddol o gyfyngu a ffrwyno potensial y cyfryngau newydd. Mae ganddom ni brinder gwasanaethau cynnwys arlein ac mae angen i ni asesu'n well sut i greu swmp o gynnwys sy'n addas ac yn gynaladawy ar gyfer y cyfryngau aml-blatfform.

Does dim prinder syniadau na phrinder mentergarwch 'chwaith. Yng nghynhadledd ddiweddar yr IWA ar ddarlledu yng Nghymru rhoddodd Wil Stephens o gwmni Cube gyflwyniad yn gosod sawl her. Fe bwysleisiodd bwysigrwydd perchnogaeth a rheolaeth y filltir ryngweithiol olaf honno rhwng y cynnwys a'r defnyddiwr. Mae gan Wil, ac unigolion a chwmniau eraill syniadau a gweledigaeth uchelgeisiol. Y trueni yw bod y rheiny yn gorfod cael eu ffrwyno mor aml yng Nghymru oherwydd cyfyngiadau rheoleiddio a chyfreithloni (mater arall yn sicr i'r Ddeddf Gyfathrebu newydd). Yn yr un modd mae syniadau uchelgeisiol diweddar yr Athro Hargreaves am wasanaethau sy'n ecsploitio Eiddo Deallusol yn debygol o wynebu'r un math o gyfyngiadau.

Fel cynhyrchwyr yng Nghymru rydyn ni'n dueddol o fod yn sinigaidd iawn am werth ein cynnwys ni ein hunain. Ond, mae'r farchnad ryngwladol yn cynnig cyfleoedd di-ri a dosbarthwyr arbenigol sy'n awyddus i gael gafael ar gynnwys o bob math. O'i ecsploitio'n gywir ac yn effeithiol, mae yma gyfleoedd yn sicr.

Ymddengys bod y prif bwyslais ar hyn o bryd ar bosibiliadau teledu lleol. Yn y gynhadledd ddiweddar ar deledu lleol (rhan o Fforwm Cyfryngau San Steffan) trafodwyd mewn manylder y math o fodelau allai weithio. Ond, fel sy'n digwydd mor aml yng nghyd-destun teledu lleol, trafodwyd mwy ar y problemau na'r posibiliadau. Ymysg y problemau hynny roedd sicrhau ar-gaeledd gwasanaethau lleol ar EPGs, creu swmp digonol o gynnwys, safon y cynnwys, denu incwm masnachol, pryder am ddylanwad monopolis a'r broses o gyhoeddi tendrau ar gyfer trwyddedau teledu lleol cyn bod y materion rheoleiddio a chyfriethiol wedi eu datrys.

Beth felly yw'r cyfleoedd? Yn y tymor hir oes yna fodelau cynaladwy na fydd yn ddibynnol ar grant llywodraeth am gyfran o'u cyllideb? Fel modelau masnachol yn unig hwyrach bod gwasanaethau teledu lleol yn anhebygol o lwyddo. Neu, mae'n bosib y byddai ystod o gwmniau a busnesau canolig a llai yn gweld cyfle. I'r rheiny ohonynt nad sy'n gyfarwydd neu'n medru fforddio hysbysebu ar deledu neu'r wasg, efallai y byddent yn fwy tebygol o edrych ar bosibiliadau masnachu ac hysbysebu ar-lein.

O ran cynnig cynnwys posib ar gyfer y gwasanaethau newydd, mae'r darlledwyr a'r sector gynhyrchu yn Nghymru yn sicr yn bartneriaid amlwg. Hyd yma, mae ymateb y darlledwyr yng Nghymru wedi bod yn weddol bositif ac maent yn barod i edrych ar y posibiliadau o ryddhau cynnwys ar gyfer y gwasanaethau lleol newydd.

Mi ddylai fod gan ein sefydliadau addysg ni rôl flaenllaw yn hyn hefyd. Mae Rondo wedi elwa o gyd-weithio gyda sefydliadau fel yr Atrium (gyfranodd adnoddau i ffilmio cynhyrchiad *Passion* Michael Sheen), Prifysgol Aberystwyth (ar y gyfres ddrama *Zanzibar*) a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant (ar Ŵyl y Drindod a Chyngerdd Aberglasne). Mae gan nifer o'r sefydliadau hyn (a rhai eraill fel Prifysgolion Glyndŵr a Chasnewydd) adnoddau ffilmio a darlledu cyfoes a safonol. Mae potensial iddyn nhw ddarparu cynnwys sylweddol ar gyfer y gwasanaethau teledu lleol newydd.

Os oedd consensws o gwbl yng nghynhadledd yr IWA a Fforwm Cyfryngau San Steffan ar deledu lleol, mae'n siwr mai cytuno taw menter ar-lein fyddai fwyaf tebygol o lwyddo oedd hwnnw. A hwn, yn hytrach na model sy'n ceisio efelychu gwerthoedd a gorchwylion darlledwyr a gwasanaethau mwy traddodiadaol.

Fe allai Llywodraeth Cymru chware rhan gryfach o ran annog gwasgaru a dosbarthu cynnwys Cymraeg, sy'n un o flaenoriaethau adroddiad yr Athro Hargreaves a strategaeth y diwydiannau creadigol. Yr her i ni i gyd yw creu, dosbarthu ac ymelwa o swmp digonol o gynnwys a bod yn barod i ymateb i'r newidiadau mewn tueddiadau gwylio sy'n deillio o dechnolegau newydd.

**4. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i roi argymhellion adroddiad Hargreaves ar waith a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys a lluosogrwydd y ddarpariaeth.**

O fewn y sector creadigol yn gyffredinol, teimlwn nad oes digon wedi ei wneud eto i roi argymhellion adroddiad yr Athro Hargreaves ar waith. Teimlwn hefyd y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth y sector a'r cyhoedd o beth yw diben a rôl Bwrdd y Diwydiannau Creadigol.

Fe soniodd yr Athro Hargreaves yn ei adroddiad:

'The disappointment has been that so few companies in the Welsh independent production sector have matured into units capable of operating through the UK and beyond.'

Gobeithio'n fawr bod yr enghreifftiau hynny ar ddechrau ein hymateb yn dangos bod nifer helaeth o gwmniau yn ymgeisio i lwyddo y tu hwnt i Gymru tra hefyd yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at gynhyrchu cynnwys Cymreig.

O ran y camau gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cryfhau cynnwys a lluosogrwydd, carem gyfeirio at un enghraifft benodol, sef cyfres ddrama BBC1 *The Indian Doctor*.

Derbyniodd cyfres gyntaf *The Indian Doctor* (comisiwn drama rwydwaith gyntaf Rondo) gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru: yn gyntaf, oherwydd yr ymrwymiad i'r 'Talent Attraction Scheme' (gyda Skillset) ac yn ail oherwydd buddsoddiad gan y 'Single Investment Fund'. Rydym newydd orffen ffilmio'r ail gyfres sydd wedi ei chyd-ariannu gan BBC Daytime, BBC Cymru a BBC Drama. Mae'r gyfres wedi cynnig cyfleoedd rhwydwaith cyntaf i gynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, awduron ac atorion o Gymru. Derbyniodd y gyfres gyntaf wobr RTS ar gyfer y gyfres 'daytime' orau.

Dyma gyfres sydd eisioes yn cyflawni rhai o amcanion cynllun DQF y BBC gan gynnwys cynyddu darllediadau ar draws y DU o gyfresi sydd wedi eu cynhyrchu yng Nghymru a darlledu cynnwys ar sawl gwasanaeth gan ddod â gwerth ychwanegol i gynulleidfaoedd. Yn achos *The Indian Doctor*, mae'r gyfres eisioes wedi ei darlledu ar BBC 1 Daytime, BBC 1 Wales a BBC 2 rhwydwaith. Heb ymyraeth bositif a chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf, byddai'n anhebygol iawn bod Rondo wedi ennill y comisiwn sylweddol hwn.

Teimlwn bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran hybu a chefnogi cynlluniau darlledwyr i gynyddu lefelau comisiynu o Gymru, trwy gynlluniau tebyg i'r Alpha Fund gyda Channel 4, cynllun XM25 y BBC a'r Talent Attraction Scheme.

Rydym yn croesawu amcanion gôl 11 yn y ‘Digital Wales Delivery Plan’ i gefnogi a datblygu’r sector greadigol ac rydym yn falch o weld bod y cwmniau cynhyrchu yn cael eu hystyried yn rhanddeiliaid pwysig o ran unrhyw broses ymgynghori.

Rydym hefyd yn croesawu’r amcan hwn, sydd yn yr un ddogfen:

‘we will create an evidence base for future goal setting and benchmarking by carrying out a comprehensive analysis of the sector including: the size and makeup of the sector in Wales, skills shortages, use of new technologies, market barriers and opportunities to develop new markets.’

Mae Rondo yn edrych ymlaen at gyfrannu ymhellach at y trafodaethau a chyd-weithio gyda phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod Cymru yn llwyddo i gynyddu ei siâr o gynnyrch a refeniw gwasanaethau darlledu cyhoeddus. Mae lle hefyd i ddatblygu o ran cyfleoedd masnachol ac mae yna botensial i wasanaethau cynnyrch newydd yng Nghymru.

Mae sicrhau ariannu digonol a chynnydd mewn gwariant ar gynnwys yn allweddol i dwf a ffyniant y cyfryngau yng Nghymru. Mae’r ffordd yr rydym ni fel gwlad a phobl yn cael ein hadlewyrchu ar ein cyfryngau (o fewn a thu hwnt i Gymru) yn allweddol i’n hunaniaeth a’n hyder ni fel cenedl.

**Gareth Williams**

**Prif Weithredwr, Rondo Media Tachwedd 10fed 2011**